Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

" Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Ebrill 2010 — Rhifyn 16

Yn y Rhifyn Hwn:

•Gari Gofal a'r Sgarlets •Cod Teithio •Cyfyngiadau Cyflymdra ar Gerbydau Nwyddau Trwm • Gwefan newydd RoSPA • Ymgyrch Beicio Modur • Diogelwch Sgwteri Symudedd • Prif Arholwr yn Croesawu Astudiaeth • Degawd o Weithredu ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd •Cadw Ffyrdd Cefn Gwlad yn Ddiogel

Y Sgarlets yn Ymuno â Gari Gofal

Mae'r Sgarlets yn rhoi cefnogaeth amlwg i helpu i addysgu plant yn Sir Gaerfyrddin am bwysigrwydd diogelwch ar y ffyrdd.

Mae'r rhanbarth rygbi wedi ymuno ag ymdrechion Uned Diogelwch y Ffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin, a'i masgot Gari Gofal, i helpu i hybu ymwybyddiaeth disgyblion a'u haddysgu am ddiogelwch ar y ffyrdd a diogelwch ceir – gan gynnwys croesi ffyrdd, gallu cael eu gweld pan fyddant allan, beicio'n ddiogel, cerdded i'r ysgol a bod yn ddiogel yn y car.

Ac yn ddiweddar dyma'r masgot poblogaidd a lliwgar Gari Gofal, sy'n saith troedfedd o daldra, yn cyfarfod â masgot y Sgarlets, 'Cochyn', a rhai o chwaraewyr y Sgarlets a'u plant, i lansio menter gefnogi y Sgarlets.

Bydd y Sgarlets yn cynhyrchu amrywiaeth o ddefnyddiau a phecynnau addysg ar ddiogelwch ar y ffyrdd, mewn cysylltiad â'r Cyngor, i'w dosbarthu i ysgolion ledled sir Caerfyrddin adeg ymweliadau'r Sgarlets ac yn ystod amserlen deithio lawn y rhanbarth dros yr haf. Bydd y Sgarlets yn tynnu sylw at negeseuon am ddiogelwch ar y ffyrdd drwy amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys cardiau proffil y chwaraewyr, siartiau wal, posteri tîm, eitemau i gynyddu ffresni ceir, llyfrau o sticeri, a sticeri ac arwyddion.

Ymunodd Dafydd Jones, sy'n chwarae i'r Sgarlets ac i Gymru, a'i blant ifanc, i roi cychwyn i'r ymgyrch newydd gyda Gari.

Meddai Dafydd: "Pan fyddwch chi'n dad, rydych chi'n llawer mwy ymwybodol o'r neges i gadw'ch plant yn ddiogel yn y car a phan fyddwch chi allan. Mae'n wirioneddol bwysig cadw'r neges ar flaen meddwl pobl. Mae Gari Gofal yn ffordd wych a hwyliog o dynnu sylw at hynny ymhlith plant iau.

"Byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i helpu i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd yn ystod y misoedd nesaf."

Meddai Julie David, Rheolwraig Lletygarwch a Marchnata y Sgarlets: "Byddwn ni'n mynd â'r negeseuon am Ddiogelwch ar y Ffyrdd i gynifer o'n sesiynau cymunedol gyda phlant ysgol ag y gallwn ni.

"Mae gennym ni yn y Sgarlets raglen brysur o weithgareddau cymunedol ac mae'n rhan bwysig o gadw'n cysylltiadau agos â theulu mawr y Sgarlets a'n cefnogwyr hen ac ifanc. Fel rhan o'n gwaith rhwydweithio, byddwn ni wrth ein bodd yn cefnogi mentrau pwysig pan fyddwn ni allan – fel hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd i blant.

"Bydd ein hymgyrch gyda'r Cyngor yn tynnu sylw at amryw o feysydd allweddol lle mae modd rhwystro damweiniau, gan gynnwys bod yn ddiogel drwy gael eich gweld, croesi ffyrdd yn ddiogel, bod yn effro pan fyddwch chi allan, beicio'n ddiogel, bod yn ddiogel yn y car a cherdded i'r ysgol.

Y Cod Teithio

Cyflwynwyd y Cod Teithio ym mis Ionawr 2010 i helpu plant a phobl ifanc i fod yn fwy diogel wrth deithio rhwng eu cartref a'u hysgol neu eu coleg. Gan fod ymddygiad gwael wedi cyfrannu yn y gorffennol at rai canlyniadau eithaf trasig, nod y Cod Teithio yw taclo ymddygiad o'r fath.

Daw pob plentyn a pherson ifanc rhwng 5 a 19 oed o dan y Cod Teithio wrth gerdded, wrth deithio ar fws neu drên, wrth feicio a hyd yn oed wrth deithio mewn car.

Cyfrifoldeb y rhiant neu'r gwarcheidwad yw sicrhau bod pob un o'i blant/ei phlant yn cydymffurfio â'r Cod Teithio. Os na fydd plentyn yn dilyn y Cod Teithio, gall fod canlyniadau i hynny. Gall Awdurdod Lleol, er enghraifft, dynnu'n ôl yr hawl i gael cludiant am ddim.

Bydd sicrhau bod pob plentyn yn deall ac yn cadw at y Cod Teithio nid yn unig yn helpu i arbed bywydau ond yn sicrhau bod palmentydd, bysiau a strydoedd yn lleoedd hapusach i bawb fod ynddyn nhw.

Lansiwyd y Cod Teithio drwy gynnal cystadleuaeth wych i ennill taith a thocynnau i weld Cymru'n chwarae rygbi rhyngwladol yn Stadiwm y Mileniwm ym mis Tachwedd 2010.

Gallwch chi lwytho'r Cod Teithio i lawr **yma** a mynd i'r wefan yn **www.codteithio.org**

Gwnewch bob taith yn un dda. Dilynwch y Cod Teithio.

Symleiddio Terfynau ar Gyflymdra i Gerbydau Nwyddau Trwm

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi cynigion i symleiddio'r terfynau ar gyflymdra bysiau, bysiau moethus a cherbydau nwyddau trwm (HGVs) ar draffyrdd.

Mae angen y newidiadau am fod terfynau gwahanol rhwng cerbydau newydd, sydd ag offer i reoli eu cyflymdra, a cherbydau hŷn sydd hebddynt. Felly, er bod HGVs diweddar wedi'u cyfyngu i 56 milltir yr awr, gall cerbydau hŷn deithio hyd at 70 milltir yr awr ar y draffordd. Yn yr un modd, cyfyngir cerbydau newydd sydd â thros wyth sedd i deithwyr ynddynt i 62.5 mya ar y draffordd ond gall cerbydau hŷn deithio 70 mya.

Gall hyn beri dryswch i yrwyr eraill ac mae'n annog cwmnïau i beidio â buddsoddi mewn cerbydau sy'n fwy diogel ac yn defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon. Yn ogystal, chaiff cerbydau sydd â dyfais sy'n cyfyngu ar eu cyflymdra ddim defnyddio lôn dde traffyrdd tair-lôn, ond gall y rhai sydd heb offer cyfyngu wneud hynny.

Ymhlith y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad mae:

- Pennu terfyn o 65 milltir yr awr i bob bws, bws mini a bws moethus sydd â mwy nag wyth sedd i deithwyr ynddo, p'un a oes ganddo ddyfais cyfyngu cyflymdra neu beidio;

- Pennu mai'r cyfyngiad cyflymdra ar draffordd yw 60 milltir yr awr i bob HGV dros 3.5 tunnell fetrig, p'un a oes offer cyfyngu cyflymdra wedi'i gosod ynddo neu beidio;

- Gwahardd pob HGV rhwng 3.5 a 7.5 tunnell fetrig a phob bws, bws mini a bws moethus sydd â seddau i fwy nag wyth teithiwr rhag defnyddio lôn dde traffyrdd sydd â thair neu ragor o lonydd.

Meddai'r Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Paul Clark:

"Hoffem i bawb – yn yrwyr, gweithredwyr, modurwyr eraill a'r heddlu – fod yn glir eu meddwl, a hoffem sicrhau bod yr un cyfyngiadau ar y rhai sy'n rhedeg cwmnïau bysiau, bysiau moethus, faniau a lorïau.

"Mae'r cynigion hyn yn symleiddio'r terfynau ar gyflymdra bysiau, bysiau moethus a lorïau ar draffyrdd er mwyn iddyn nhw gydymffurfio â'r un rheolau'n union, beth bynnag yw oedran eu cerbydau."

Gallwch weld yr ymgynghoriad, sy'n cau ddydd Mawrth 27 Ebrill, yma:
http://www.dft.gov.uk/consultations/open

Newid Llwyr ar-lein wrth i RoSPA Ddadorchuddio'i Gwefan newydd

I helpu'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau i gyrraedd ei nod o arwain y ffordd o ran atal damweiniau yn yr 21ain ganrif, mae prif wefan yr elusen – www.rospa.com – wedi'i hailwampio'n llwyr.

Cynlluniwyd a datblygwyd y wefan gan dîm gwe RoSPA ei hun. Mae'n haws ei defnyddio ac mae golwg lanach a chliriach iddi nag un ei rhagflaenydd. Cewch chi ddal i gael digon o wybodaeth fuddiol ynddi am rwystro damweiniau yn y cartref, ar y ffyrdd, yn yr ysgol, yn y gwaith ac wrth hamddena. Cewch adrannau ynddi hefyd ar ddiogelwch plant ac addysg ynghylch diogelwch a risg.

Ymhlith pethau eraill gall ymwelwyr weld cyfres o fideos a hefyd ddefnyddio llinell amser dreftadaeth ryngweithiol sy'n dilyn hynt llu o ymgyrchoedd a llwyddiannau RoSPA dros 93 o flynyddoedd ei fodolaeth. Gallan nhw hefyd gael y newyddion diweddaraf un am holl ymgyrchoedd, cynhyrchion, gwasanaethau a hyfforddiant RoSPA. Caiff ymwelwyr gyfle yn ogystal i addasu eu hafan a sefydlu porthiadau RSS.

Meddai Tom Mullarkey, prif weithredwr RoSPA: "Dyma ddatblygiad cyffrous iawn sy'n dangos ein bod ni'n dal ar y blaen o ran arbed bywydau a chwtogi ar anafiadau.

"Mae'n hanfodol bwysig i ni, yn oes technoleg gwybodaeth, fod â phresenoldeb mawr a rhyngweithiol ar y we. Cafodd ein hen wefan 2.92 miliwn o ymweliadau y llynedd ac edrychwn ymlaen at gael llawer mwy o ymwelwyr yn y dyfodol.

"Ein nod erioed yw cynghori ac addysgu cynifer o bobl â phosibl am y risgiau y maen nhw'n eu hwynebu yn eu bywyd bob-dydd. Dylai'r wefan helpu i fynd â'n negeseuon i gartrefi a gweithleoedd miliynau o bobl. Gobeithio y byddan nhw'n ei defnyddio dro ar ôl tro ac yn ei chael hi'n gaffaeliad gwerthfawr."

Mae'r wefan yn cynnwys parth gwe pwrpasol i aelodau RoSPA na chaiff neb ond nhw weld ei gynnwys. Ynddo cânt fynediad i gatalog yr Infocentre (sy'n storio manylion dros 28,500 o ddogfennau).

Ymgyrch PWYLLWCH! Newydd ac Anturus i Gwtogi ar Farwolaethau Beicwyr Modur

Caiff enwau beicwyr modur eu harddangos fel rhan o ymgyrch PWYLLWCH! newydd ac anturus i arbed bywydau ar y ffyrdd.

Bydd yr hysbysebion newydd ar y teledu yn dangos beicwyr ag arwyddion neon yn fflachio ar eu beiciau. Bydd yr arwyddion yn dangos enw ac yn disgrifio nodweddion personoliaeth y beiciwr fel 'un eitha tawel a swil' neu 'tad newydd'. Ar y diwedd, bydd llais yn gofyn i yrwyr fod yn effro i feicwyr modur y tro nesaf y byddan nhw allan yn gyrrug.

Cost yr ymgyrch newydd fydd £3.5 miliwn, a chaiff ei lansio gan y Gweinidog Diogelwch ar y Ffyrdd, Paul Clark, heddiw. Bydd yn ddatblygiad radical i PWYLLWCH! ar ôl i ymchwil ddangos bod gyrwyr yn debycach o sylwi ar feicwyr modur ar y ffyrdd os ydyn nhw'n adnabod beiciwr.
Mae'r hysbysebion yn rhoi beicwyr modur wrth galon yr ymgyrch newydd er mwyn ceisio annog pob gyrrwr i weld yr unigolyn y tu ôl i'r helmed – a thaclo, felly, y ffaith fod cyfran ormodol o feicwyr modur yn cael eu hanafu a'u lladd ar y ffyrdd. Er nad ydyn nhw ond yn 1% o'r traffig, beicwyr modur yw 19 y cant o'r rhai sy'n marw ar ffyrdd Prydain.
Meddai Paul Clark :
"Rydyn ni'n gweithio'n galed i daclo'r nifer annerbyniol o wrthdrawiadau y caiff beicwyr modur eu lladd ynddyn nhw ar ffyrdd Prydain, a rhan hanfodol o wneud hynny yw'n hymgyrchoedd PWYLLWCH!.

"O'r blaen, mae hysbysebion wedi rhybuddio gyrwyr i fod yn effro i feiciau mewn sefyllfaoedd penodol fel cyffyrdd-T neu'r mannau na allan nhw eu gweld – ac wedi dangos canlyniadau angheuol methu â gwneud hynny. Dyma ymgyrch newydd a chyffrous sy'n mynd gam ymhellach drwy ofyn i yrwyr ailystyried y ffordd yr edrychan nhw ar feicwyr."

"Gobeithio y bydd yr ymgyrch newydd a beiddgar hon yn helpu i ostwng nifer y beicwyr modur a gaiff eu lladd neu eu hanafu mewn gwrthdrawiadau â cheir."

Cychwynnodd yr ymgyrch newydd 'Enwi'r Beiciwr Modur' ddydd Llun 1 Mawrth ac mae'n cynnwys hysbysebion ar y teledu a'r radio, yn y sinema, a hysbysebion ar-lein.

Cynhelir ymgyrch hefyd o'r enw 'Byddwch yn Effro i'r Ffordd' i annog beicwyr modur newydd i wisgo dillad amddiffynnol a chael rhagor o hyfforddiant.

Mesurau Diogelwch Newydd ar gyfer Sgwteri Symudedd



Mae'r Gweinidog Trafnidiaeth, Sadiq Khan, wedi cyhoeddi cyfres o newidiadau sy'n ceisio moderneiddio'r rheoleiddio sydd ar gerbydau symudedd. Nod y cynigion yw sicrhau fod pobl anabl yn cadw'u hannibyniaeth a bod cynnydd yn niogelwch defnyddwyr cerbydau symudedd, cerddwyr a defnyddwyr eraill y ffyrdd.

Meddai Sadiq Khan:

"Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cynnydd cyson wedi bod dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn nifer y cerbydau symudedd. Gan fod y boblogaeth yn heneiddio, mae'r duedd honno'n debyg o gynyddu.

"Ar ben hynny, mae technoleg y cerbydau'n fwyfwy soffistigedig. Dydy hi ond yn iawn, felly, i ni ddiweddaru'r ddeddfwriaeth i gyd-fynd â'r datblygiadau hynny.

"Gan fod cerbydau symudedd yn hanfodol i lawer o bobl, fe hoffen ni sicrhau bod pawb sydd angen un yn gallu ei defnyddio'n ddiogel."

Mae'r ymgynghoriad – a fydd yn para 12 wythnos – yn awgrymu amryw o ffyrdd posibl o gynyddu diogelwch, gan gynnwys:

- newid y diffiniad cyfreithiol o sgwteri;

- newid uchafswm pwysau sgwteri, a holi a ddylent barhau i beidio â chludo mwy nag un unigolyn;

- newidiadau i gyflymdra cynlluniedig y cerbydau y gellir eu defnyddio ar briffordd, a'r cyflymdra y cânt deithio arno;

- symud at yswiriant gorfodol yn hytrach na gwirfoddol;

- newid y trefniadau cofrestru, naill ai drwy ddiwygio trefn bresennol y DVLA neu symud at gynllun mwy lleol;

- gwella'r broses o gasglu data am nifer y cerbydau hynny a'u diogelwch.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi sylw i sgwteri symudedd sy'n helpu pobl lai symudol, ac i gadeiriau olwyn â batri i'r rhai y mae angen help bob dydd arnyn nhw i symud.

Gallwch chi ddod o hyd i'r ymgynghoriad yma http://www.dft.gov.uk/consultations/open/2010-10/. Daw i ben ddydd Gwener, 28 Mai 2010.

Gallwch chi ddod o hyd i Reolau'r Ffordd Fawr i Sgwteri Symudedd yma

Prif Arholwr Gyrru yn Croesawu Cyhoeddi Astudiaeth Wyddonol

Mae'r prif arholwr gyrru a'r cyfarwyddwr gyrru mwy diogel, Trevor Wedge, wedi croesawu cyhoeddi astudiaeth wyddonol newydd o'r ffordd y gall hyfforddwyr gyrru ddatblygu eu sgiliau hyfforddi.

Dan nawdd yr UE, dechreuodd prosiect HERMES ('High Impact approach for Enhancing Road safety through More Effective communication Skills for driving instructors') ym mis Mawrth 2007 ac fe'i cwblhawyd ym mis Chwefror 2010. Ei brif nod oedd creu cwrs hyfforddi byr i hyfforddwyr gyrru iddynt allu datblygu eu sgiliau cyfathrebu a hyfforddi.

Yn ogystal, mae amryw o sefyllfaoedd hyfforddi wedi'u datblygu er mwyn i hyfforddwyr allu rhoi hyfforddiant ar y ffordd, ar y trac ac yn yr ystafell ddosbarth, ac i gyflawni cyrchnodau'r broses o addysgu gyrwyr. Ers yr ymgynghoriad llwyddiannus yn 2008 ynghylch dysgu gyrru, mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru (y DSA) wedi bod yn gweithio'n galed i foderneiddio hyfforddi gyrwyr. Meddai Trevor Wedge: "Mae'r DSA wedi dilyn gwaith HERMES yn fanwl dros y tair blynedd diwethaf, ac rydyn ni'n croesawu cyhoeddi ei ddarganfyddiadau.

"Mae hyfforddi'n cynnig y potensial i feithrin hunan-gyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth yn y rhai sy'n dysgu gyrru, a hynny'n gynnar iawn yn eu hyfforddiant."

Cewch fanylion y prosiect, a'r adroddiad lawn, yn alles-fuehrerschein.at/HERMES

Degawd o Weithredu ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd

Penderfyniad hanesyddol llywodraethau'r byd ar 2 Mawrth oedd cynyddu'r gweithredu i daclo argyfwng diogelwch ar y ffyrdd dros y deg mlynedd nesaf. Llywodraeth Ffederasiwn Rwsia a gyflwynodd benderfyniad Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig i gyhoeddi Degawd o Weithredu ar Ddiogelwch ar Ffyrdd 2011-2020, a chyd-noddwyd y penderfyniad gan dros 90 o wledydd. Mae'r WHO yn croesawu'r cyhoeddiad am ei fod yn ceisio arbed bywydau drwy atal y duedd i nifer y marwolaethau a'r anafiadau ar y ffyrdd gynyddu ledled y byd.

Drwy gydol y Degawd, bydd yr Aelod-Wladwriaethau, gyda chefnogaeth y gymuned ryngwladol, yn ymrwymo i gymryd camau mewn meysydd fel datblygu a gorfodi'r ddeddfwriaeth ynghylch ffactorau risg allweddol: cyfyngu cyflymdra, cwtogi ar yfed a gyrru, a chynyddu'r defnyddio ar wregysau diogelwch, seddau plant a helmedau beicwyr modur. Ceisir hefyd wella'r gofal trawma brys, uwchraddio safonau ffyrdd a diogelwch cerbydau, hyrwyddo addysg diogelwch ar y ffordd a gwella'r rheoli ar ddiogelwch ar y ffyrdd yn gyffredinol.

Daw'r fenter hon yn sgil Cynhadledd Fyd-eang Gyntaf y Gweinidogion ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Ffederasiwn Rwsia ym mis Tachwedd 2009. Mae "Datganiad Moscow", a gyhoeddwyd gan weinidogion ac uwch-swyddogion 150 o wledydd, yn tanlinellu pwysigrwydd diogelu holl ddefnyddwyr y ffyrdd, yn enwedig y rhai mwyaf bregus fel cerddwyr, beicwyr a beicwyr modur.

Bellach, gall yr holl randdeiliaid gyflwyno'u sylwadau ar Gynllun drafft ar gyfer y Degawd, cynllun a luniwyd gan y WHO gyda chymorth aelodau o Gydweithrediad y Cenhedloedd Unedig ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd. Gwefan y Cydweithrediad yw http://www.who.int/roadsafety . Gwahoddir pawb i gylchredeg y Cynllun drafft ymhlith eu priod rwydweithiau er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r Degawd, casglu sylwadau ar y cynlluniau arfaethedig, ac ennyn cefnogaeth i weithredu gweithgareddau cysylltiedig.

Ffrwyth cydymdrechion nifer fawr o randdeiliaid, a champ fawr, yw cyhoeddi Degawd o Weithredu ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd, 2011-2020. Y cam nesaf fydd i aelodau o Gydweithrediad y Cenhedloedd Unedig ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd gyfarfod i drafod ymhellach ac i gynllunio gweithredu'r gweithgareddau cyntaf sydd i'w cynnal yng nghyd-destun y Degawd. Cynllun Drafft y Degawd Gweithredu ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd 2011-2020 [pdf 153kb]

Cadw Ein Ffyrdd Gwledig yn Ddiogel

Mae Gwasanaethau Priffyrdd ac Isadeiledd Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych yn gofyn i ffermwyr a'r rhai yn y diwydiant amaethyddol i'w helpu i gadw ffyrdd gwledig yn fwy diogel i bawb. Mae'r Awdurdodau wedi cyhoeddi arweiniad i Ffermio a Ffyrdd Cyhoeddus sy'n egluro rôl yr Awdurdodau Priffyrdd a chyfrifoldebau unrhyw un sy'n gweithio ar ffyrdd cyhoeddus, boed hynny'n torri gwrychoedd, yn defnyddio cerbydau amaethyddol neu'n symud anifeiliaid.

Meddai Stuart Davies, Pennaeth Priffyrdd ac Isadeiledd Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych, "Daw'r llyfryn â gwybodaeth a chyngor defnyddiol ynghyd ar gyfer unrhyw un sy'n rhedeg busnes gwledig sy'n cael effaith ar ffyrdd cyhoeddus."

Mae copïau o'r daflen Ffermio a Ffyrdd Cyhoeddus ar gael o swyddfeydd a llyfrgelloedd y Cyngor neu cliciwch ar y ddolen ganlynol. **Cadw Ein Ffyrdd Gwledig yn Ddiogel**

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2010 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA sbaker@rospa.com

02920 250 600

Nid yw RoSPA yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol